

# Comisiwn Bevan Commission

---

## Enghreifftwyr Bevan Galwad am Geisiadau



## 1. Oes gennych syniad arloesol?

---

Ydych chi'n angerddol am y GIG a'i gynnaladwyedd?

Oes gennych syniad da a fydd yn helpu i wella iechyd a lles, y GIG, deilliannau cleifion, prosesau, systemau, defnydd o adnoddau neu wasanaethau?

Hoffech weld eich syniad ar waith?

Oes gennych yr ymrwymiad a'r brwdfrydedd i'w wireddu?

## 2. Crynodeb o'r Ddogfen

---

Nod y ddogfen hon yw helpu pobl i ddeall goblygiadau bod yn Enghreifftwyr Technoleg Iechyd Bevan a sut i wneud cais. Yn gryno, mae'n cynnwys y camau canlynol:

**Cam 1** - Darllen y ddogfen hon a gwneud cais Ystyried a oes modd i chi ymrwymo i'r amserlenni yn Adran 8.

**Cam 2** - Cwblhau a chyflwyno'r ffurflen gais

**Cam 3** - Yna bydd eich Bwrdd neu Ymddiriedolaeth Iechyd Leol yn ystyried ceisiadau ac yn dethol rhai i'w cyflwyno i Gomisiwn Bevan

**Cam 4** - Bydd panel Comisiwn Bevan yn llunio rhestr fer o geisiadau ar gyfer digwyddiad 'Dragon's Den'.

**Cam 5** - Gwahoddir yr ymgeiswyr ar y rhestr fer i ddigwyddiad Dragon's Den lle bydd Comisiwn Bevan yn gwneud ei ddetholiad terfynol.

**Cam 6** - Cewch eich hysbysu am y canlyniad

## 3. Pam gwneud cais?

---

Cewch eich cefnogi i fynd â'ch technoleg iechyd i'r cam gweithredu;

Caiff eich prosiect ei gydnabod a'i hyrwyddo ar lefelau uwch o fewn GIG Cymru a Chomisiwn Bevan;

Cyfle i ddatblygu'ch profiad arweinyddiaeth, eich gwybodaeth a'ch sgiliau personol; Mynediad i hyfforddiant a mentora;

Gwell dealltwriaeth a mynediad i syniadau, pobl a safbwyntiau ehangach.

Cyfle i ddatblygu'ch rhwydweithiau personol a chwrdd â phobl o'r un meddylfryd

Cyfle i hyrwyddo newid yn eich sefydliad;

Cyfle i ddylanwadu ar feddylfryd ac ymarfer yn eich sefydliad a'r tu allan iddo;

Cyfle i wneud newid er gwell.

## 4. Meini Prawf Ymgeisio

---

### I wneud cais am fod yn Enghreifftiwr Bevan:

- Bydd gennych syniad da sy'n cefnogi arloesi darbodus a deilliannau iechyd gwell;
- Bydd gennych yr awydd a'r gallu i weithio gyda Chomisiwn Bevan i newid a gwella gofal iechyd;
- Byddwch yn frwdfrydig ac yn angerddol am eich GIG.

### Syniadau sydd o fewn cwmpas y rhaglen hon:

- Syniadau sy'n gwella iechyd a lles yng Nghymru;
- Syniadau sy'n cyflawni deilliannau clinigol gwell;
- Cynhyrchion, rolau neu ffyrdd o weithio newydd;
- Gwell gwybodaeth neu sgiliau;
- Gellir ei gyflawni o fewn 9-12 mis.

## 5. As a Bevan Exemplar...

---

### Disgwyliwn ichi:

- ymrwymo'n llwyr i gymryd rhan yn rhaglen ddigwyddiadau a rhwydweithio Enghreifftiol Bevan (hyd at 6 diwrnod);
- hysbysebu a hyrwyddo'ch gwaith;
- gwerthuso effaith a chanlyniadau eich gwaith;
- hyrwyddo Gofal Iechyd Teud;
- yn hyrwyddo rhaglen Enghreifftiol Bevan;
- darparu diweddariadau ac adroddiadau yn ôl yr angen.

### Dylech ddisgwyl inni:

- darparu digwyddiadau rhwydwaith wedi'u teilwra i gefnogi prosiectau ac annog rhwydweithiau cefnogi cyfoedion;
- darparu cefnogaeth hyfforddi a mentora;
- darparu cefnogaeth i ddatrys materion cyflwyno;
- hwyluso mynediad i Gomisiynwyr Bevan;
- hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'ch gwaith yn eang.

## Dylech ddisgwyl i'ch sefydliad:

- annog a chefnogi chi i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau enghreifftiol a rhoi amser i chi wneud hynny;
- bod yn gwbl ymrwymedig i'ch cefnogi chi i gyflwyno'ch prosiect;
- eich helpu i oresgyn heriau neu rwystrau rhag cyflawni.

## Gwneud penderfyniadau...

### Meini Prawf :

- syniad da sy'n cefnogi arloesi darbodus a deilliannau iechyd gwell;
- yr awydd a'r gallu i weithio gyda Chomisiwn Bevan i newid a gwella gofal iechyd;
- brwdfrydig ac angerddol am y GIG.

## Cwestiynau byddwn yn eu gofyn wrth wneud ein penderfyniad:

- Ydy'r syniad hwn yn Ddarbodus?  
(ateb - Ydy)
- Ydy'r syniad hwn yn newydd ac yn arloesol?  
(ateb - Ydy)
- Ydy'r prosiect hwn yn rhywbeth rwy'n gyfarwydd ag ef, ac yn rhywbeth rwyf wedi bod yn ei wneud ers amser?  
(ateb - Nac ydy)
- Oes modd cyflawni hwn o fewn 9 - 12 mis?  
(ateb - Oes)
- Ydy'n sicr y bydd y syniad hwn yn gweithio? \*  
(ateb - Nac ydy)
- Oes gan y syniad gyfle da i weithio?  
(ateb - Oes)
- Fyddwn ni'n dysgu rhywbeth newydd drwy gefnogi'r syniad hwn? \*  
(ateb - Byddwn)

\* Os yw'n sicr y bydd syniad yn gweithio, neu os na fyddwn yn dysgu unrhyw beth newydd drwy ei wneud, yna mae'n debygol nad yw'n newydd nac yn arloesol.

## 6. Cysylltiadau

---

Sefydliad	Arweinydd	E-bost yr Arweinydd
Abertawe Bro Morgannwg UHB	Christine Morrell	christine.morrell@wales.nhs.uk
Aneurin Bevan UHB	David Thomas	david.thomas15@wales.nhs.uk
Betsi Cadwaldr UHB	Adrian Thomas Lynne Grundy	adrian.thomas@wales.nhs.uk lynne.Grundy@wales.nhs.uk
Cardiff and Vale UHB	Abigail Harris	abigail.harris@wales.nhs.uk

	Robyn Davies	robyn.davies5@wales.nhs.uk
Cwm Taf UHB	Tom Powell	thomas.powell2@wales.nhs.uk
Hywel Dda UHB	Phil Kloer	philip.kloer@wales.nhs.uk
Powys Teaching Health Board	Howard Cooper	howard.cooper@wales.nhs.uk
Public Health Wales NHS Trust	Rhiannon Beaumont-Wood	Rhiannon.Beaumont- Wood@wales.nhs.uk
Velindre NHS Trust	Phil Webb	philip.webb@wales.nhs.uk
Welsh Ambulance Services NHS Trust	Grayham Mclean	grayham.mclean@wales.nhs.uk
NWIS	Wendy Dearing	wendy.dearing@wales.nhs.uk

# Comisiwn Bevan ac Academi Comisiwn Bevan – Briff

## 1. Comisiwn Bevan

---

Wedi'i sefydlu yn 2008, mae Comisiwn Bevan (a leolir ym Mhrifysgol Abertawe ac a gefnogir gan y Brifysgol) yn dod â grŵp o arbenigwyr o fri rhyngwladol ynghyd i ddarparu cyngor annibynnol ac awdurdodol ar iechyd a gofal i Lywodraeth Cymru ac arweinwyr ledled Cymru, y DU ac yn fyd-eang.

Mae Comisiwn Bevan yn nodi ac yn rhannu arfer gorau o systemau gofal iechyd ledled y byd, gan adeiladu ar egwyddorion y GIG a bennwyd gan Aneurin Bevan.

Mae'n darparu argymhellion awdurdodol i wella system gofal iechyd Cymru, ac yn cefnogi gweithwyr gofal ac iechyd proffesiynol rheng flaen i arloesi a phrofi eu syniadau arbenigol eu hunain.

Mae Comisiwn Bevan yn credu mai cyfrifoldeb pawb yw iechyd a gofal da, felly mae'n gweithio gydag ymarferwyr proffesiynol ac aelodau cymunedau i sicrhau bod eu barn a'u syniadau'n cael eu clywed yn y drafodaeth am iechyd a gofal.

Mae aelodau Comisiwn Bevan yn dod o amrywiaeth eang o feysydd iechyd. Gyda'i gilydd, maent yn cynnig degawdau o brofiad o arwain newid a darparu gwasanaethau iechyd a gwella gwasanaethau iechyd yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang. Mae ehangder a dyfnder eu profiad a'u gwybodaeth yn cefnogi'r Comisiwn i ddarparu arweiniad dibynadwy, perthnasol ac awdurdodol i'r Gweinidog.

Mae Comisiwn Bevan yn hyrwyddo ymagwedd ddarbodus at iechyd, yn seiliedig ar bedair Egwyddor Iechyd Darbodus. Y rhain yw:

- ✓ Cyflawni iechyd a lles drwy gynnwys y cyhoedd, cleifion ac ymarferwyr proffesiynol fel partneriaid cyfartal drwy gynhyrchu ar y cyd.
- ✓ Gofalu am y rhai sydd â'r anghenion iechyd mwyaf yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau.
- ✓ Gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol yn unig - dim mwy, dim llai - a pheidio â gwneud niwed.
- ✓ Lleihau amrywio amhriodol drwy ddefnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn modd cyson a thryloyw.

## 2. Academi Comisiwn Bevan

---

Mae Academi Comisiwn Bevan yn dod â'r cyhoedd, ymarferwyr gofal iechyd proffesiynol, ysgolheigion o fri a staff y GIG ynghyd i hyrwyddo a gwella safonau gofal iechyd mewn amgylchedd dysgu a datblygu dynamig er mwyn cefnogi arweinyddiaeth ysbrydoledig, syniadau arloesol, ffyrdd newydd o weithio ac ymchwil gweithredol - dysgu drwy weithredu.

Bydd Academi Comisiwn Bevan yn manteisio ar yr asedau sydd ar gael yng Nghymru, gan ymarferwyr proffesiynol a'r cyhoedd, gan ddiwydiant a'r gymuned academiaidd, ochr yn ochr â rhwydweithiau a phartneriaethau helaeth Comisiwn Bevan.

Lle mae'r Comisiwn yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor, arweiniad ac argymhellion, nod yr Academi yw cyfeirio hyn drwy ymgysylltu, dysgu gweithredol, hyrwyddo ac ysgogi;

cataleiddio newid ac arloesi a chefnogi dyheadau'r Comisiwn i fanteisio ar yr wybodaeth fwyaf eang a dwfn bosib, wrth ddarparu cyngor strategol a pholisi i'r Gweinidog. Yn hyn o beth, yr Academi yw corff gweithredol y Comisiwn.

I gefnogi'r amcanion hyn ac i helpu i gynnwys y GIG yn y gwaith hwn, mae'r Academi wedi creu Arloeswyr Bevan a Hybiau Arloesi Bevan.

### 3. Arloeswyr Bevan

---

Rôl Arloeswyr Bevan yw helpu i ysgogi, cefnogi a gwreiddio gweithgarwch arloesi o fewn sefydliadau a rhyngddynt, gan gasglu tystiolaeth o arloesedd, mudiadau cymdeithasol er newid ac arweinyddiaeth gyfunol. Bydd arloeswyr yn nodi, yn ysgogi ac yn lledaenu arloesi ac yn gweithredu fel asiantau newid. Yr Arloeswyr yw:

- **Enghreifftwyr** - Gweithwyr y GIG a sefydliadau iechyd eraill. Bydd Enghreifftwyr yn llunio ac yn datblygu syniadau arloesol sydd wedi'u halinio ag anghenion Byrddau Iechyd a Gofal Iechyd Darbodus a chânt effaith gadarnhaol ar ddeilliannau cleifion; byddant yn creu mudiad cymdeithasol er newid ledled Cymru drwy rannu ymagweddau ac ysbrydoli eraill ac yn creu rhwydwaith i rannu syniadau.
- **Cymrodorion** - academyddion clinigol dan hyfforddiant. Bydd Cymrodorion yn bont rhwng gwasanaethau clinigol, academyddion a chymhwysiad ymarferol; byddant yn datblygu cynigion sy'n ymdrin ag anghenion iechyd lleol ac yn eu cefnogi, gan wella ymarfer clinigol a deilliannau iechyd; yn gwella recriwtio lleol ac yn creu rhwydweithiau clinigol academiaidd.
- **Eiriolwyr** - y cyhoedd, cleifion a sefydliadau cleifion. Bydd Eiriolwyr yn darparu llais i'r cyhoedd gyfrannu at Ofal Iechyd Darbodus; byddant yn caniatáu i Gomisiwn Bevan glywed barn y cyhoedd, gan ddefnyddio cwestiynau allweddol a phynciau o ddiddordeb; ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gefnogi'r broses o gyflawni Gofal Iechyd Darbodus.

### 4. Bevan Comisiynwyr

---

**Cadeirydd bwrdd** – Professor Sir Mansel Aylward CB

#### **Bevan Comisiynwyr**

Nygaire Bevan  
Professor Dame Carol Black DBE  
Professor Bim Bhowmick OBE DL  
Sir Ian Carruthers OBE  
Mary Cowern  
Professor Trevor Jones CBE  
Lt General Louis Lillywhite CB, MBE, OStJ  
Ann Lloyd CBE  
Professor Ewan Macdonald OBE  
Professor Sir Michael Marmot

Chris Martin

Professor Sir Anthony Newman Taylor CBE  
Dr Helen Paterson  
Professor Phillip Routledge OBE  
Fran Targett OBE  
Sir Paul Williams OBE CStJ DL  
Professor John Wyn Owen CB  
Professor Baroness Ilora Finlay  
Professor Kamila Hawthorne MBE  
Professor Hywel Rhys Thomas CBE